# Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Glantwymyn 19.12.24

**Neuadd Cymuned Glantwymyn am 7.30yh**

**19:740: Presennol**: Iwan Pughe Jones (Cadeirydd) Bedwyr Fychan, Deryck Lewis, William Owen, Paul Hughes Gareth Wyn Jones, Dafydd Evans, Huw Williams, Gareth Owen, Sandra Evans (Clerc)

**19:741: Ymddiheuriadau**: Rhodri Wigley, Gwenfair Rhys-Davies, Gwen Lloyd

**19:742: Materion Personol:- Diolchwyd i Bedwyr Fychan am gadeirio'r cyfarfod diwethaf gan Iwan Pughe Jones**

**19:743: Datganiadau o ddiddordeb**:

**19:744: Cyflwyno a derbyn cofnodion CCG Tachwedd 2024** Nodwyd bod Dafydd Evans a Paul Hughes yn bresennol.

**19:745: Materion yn codi o'r cofnodion. Nodwyd bod Paul Hughes a Dafydd Evans yn bresennol**

**19:746: Adroddiad y Clerc –** Nodwyd bod y cyfrifon yn barod ar gyfer yr archwilydd mewnol. Diolch i Gareth Wyn Jones, Bedwyr ac Iwan Pughe Jones am eu cymorth.

(19:735) Cywiriad £400.00 yw pris claddu llwch pobl y tu allan i'r ardal. (19:732) Dafydd Evans a wnaeth y cynnig hwn. Cynigiwyd bod y cofnodion yn iawn fel arall gan Huws ac fe'i heiliwyd gan Deryck Lewis.

**19:747: Cynllunio**:

**19:748: Materion ariannol ac eitemau i'w talu**

- Yswiriant Seiber £187.04 Coalition Risk Solutions Ltd – Ceir gwybodaeth gan Gyngor Sir Powys a chynghorau plwyf am gyfarwyddyd cyn gwneud penderfyniad terfynol

- Ffïoedd Awdit – Mae'r Cyngor yn dal i ddisgwyl cadarnhad gan Swyddfa'r Awdit am y cynllun talu arfaethedig sef £305 (ar gyfer 2017-2018), £305 a £1852.25 (ar gyfer 2018-2019), £305 (ar gyfer 2019-2020), £342 (ar gyfer 2020-2021)

Cytunwyd i dalu'r uchod yn unfrydol.

**19:749: Derbyn Model Reoliadau Ariannol newydd 2024** Trafodwyd rhai pwyntiau. Bydd Bedwyr Fychan, Iwan Pughe Jones a'r Clerc yn llunio copi draft i'w cyflwyno i'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf. Cytunwyd pawb yn unfrydol

**19:750: Gohebiaeth** – Cais am ddiffibriliwr i Geinws ac Esgeirgeiliog gan Mrs. Jan Young yn gofyn am gefnogaeth. Mae'r Cyngor yn cefnogi'r cais a chysylltir i roi manylion Phil Hill.

**19:751: Adroddiadau'r Cynghorwyr Llywodraethwr Ysgol Glantwymyn – Dafydd Evans** Cafwyd dau gyngerdd llwyddiannus ddiwedd y tymor. Codwyd 10,000 mewn noson a drefnwyd gan Gyfeillion yr Ysgol. Bydd hyn yn help mawr tuag at gostau enfawr bysys i'r plant e.e. trip addysgol yn ddiweddar i farchnad Ruthin a gostiodd £600.00 a'r costau rheolaidd i fysys nofio sef £150 yr wythnos.

**Adroddiad Biosffêr Dyfi – Iwan Pughe Jones.** Nodwyd bod Biosffer Dyfi erbyn hyn yn cynnwys Ecodyfi gynt a bod llawer o waith buddiol yn digwydd gan gynnwys eco-feiciau

**19:752: Ffyrdd a Phontydd**

- Tyllau difrifol yn y ffordd ym mhentre Darowen eisiau eu hadrodd eto.
- Pont Cwmlline – angen adrodd eto.
- Llanwrin – problem barhaus gyda dŵr ar y ffordd. Er bod peth gwaith wedi'i wneud yn ddiweddar mae problem o hyd. Mae angen glanhau'r gullies a jetio.
- Problem Glangwinedd, Ffriddgate – adroddir i CNC
- Halen - Angen gofyn eto am halen ar gyfer yr ardal i gyd. Mae rhywfaint o halen wedi cyrraedd ond dim ond ar y rhiwiau serth mewn mannau.
- Culvert yn suddo wrth ochr y ffordd ger Grey House yn creu problem
- Problem ger ar waelod y rhiw ger Aberffrydlan – culvert yn rhy isel i ateb lefel y ffordd – problem ers tarmacio'r ffordd
- Gofynnir am gyfarfodydd safle i drafod y materion hyn

**19:739: Unrhyw Fater Arall**

Daeth y cyfarfod i ben am 8.47

**Ymddiriedolaeth Melinau Gwynt Cemaes 19.12.24**

- Meinciau - Bydd Paul Hughes yn gwneud arolwg o holl feinciau ardal y Cyngor. Ceir trafodaeth yn y cyfarfod nesaf ai trwsio'r meinciau cyfredol neu brynu rhai newydd fyddai orau. Cafwyd y wybodaeth ganlynol gan Second Life Products: Black / Brown 1.7m sloper (1.5m seat) £465+taw. Coesau hirach £35+taw yn ychwanegol. Placiau £85+taw Ysgrifennu'n uniongyrchol ar fainc £90+taw neu £125+taw ar gyfer ysgrifennu gwyn.

- EDF – Gwahoddir Simon Ling i gyfarfod mis Chwefror

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20